Atodiad 5

CRONFA BENSIWN RHONDDA CYNON TAF

# STRATEGAETH GWEINYDDU'R GRONFA BENSIWN

Diweddarwyd Mawrth 2021

| Cynnwys | | Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Fframwaith Rheoleiddio | 4 |
| 3. | Cysylltu a Chyfathrebu | 5 |
| 4. | Safonau Gwasanaeth<br>▪ Cyfrifoldebau'r Awdurdod Cyflogi<br>▪ Cyfrifoldebau'r Awdurdod Gweinyddu<br>▪ Cyflawniad Anfoddhaol | 7 |
| 5. | Goblygiadau Ariannol | 16 |
| 6. | Achlysuron Hysbysadwy | 17 |
| 7. | Polisïau Cysylltiedig | 18 |
| 8. | Rheoli ac Adolygu | 19 |
| 9. | Atodiadau<br>▪ Atodiad 1 Rheoliadau sy'n gysylltiedig â'r ddogfen yma<br>▪ Atodiad 2 Cyfrifoldebau Cyswllt Pensiynau<br>▪ Atodiad 3 Llofnodwyr Awdurdodedig – Ffurflen Enghreifftiol | 20 |
| 10. | Manylion Cyswllt | 26 |

## 1. Cyflwyniad

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2013 yn annog Awdurdodau Gweinyddu Cronfeydd Pensiwn i gyflwyno Strategaeth Weinyddu er mwyn dangos bwriad ac ymrwymiad i wella'r prosesau gweinyddu o fewn Cronfa'r CPLlL. Mae'r rheoliadau yma'n eithaf penodol o ran datgelu gwybodaeth ac ystadegau cyflawni yn rhan o'r broses yma ond maen nhw'n darparu llai o arweiniad o ran strategaeth.

Mae'r strategaeth yma wedi'i datblygu i gryfhau'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth ac mae'n cydnabod bod gan y Cyflogwyr Cronfa ac Awdurdod Gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ill dau gyd-gyfrifoldeb i ddarparu Cronfa Bensiwn effeithlon ac effeithiol ar gyfer yr aelodau. Mae'n cydnabod hefyd mai dim ond mewn partneriaeth y bydd modd cyflawni gwelliannau o'r fath.

Nodau ac amcanion y ddogfen strategaeth weinyddu yma yw parhau i wella swyddogaethau gweinyddu'r Cynllun. Caiff hyn ei gyflawni drwy sicrhau bod egwyddorion 'Cod Ymarfer' Rheoleiddwyr Pensiwn yn cael eu cymhwyso'n gyson. Caiff hyn ei gyflawni drwy gyflwyno fframwaith ar gyfer gwella a monitro llif data, darparu llinellau cyfathrebu clir a gwneud swyddogaethau a chyfrifoldebau'n dryloyw yn ogystal â bodloni gofynion datgelu.

Yr Awdurdod Gweinyddu sy'n gyfrifol am weinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran y Cyflogwyr sy'n rhan o Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd. Mae'r Cyflogwyr yma'n bodloni meini prawf cymhwysedd y cynllun, naill ai fel Cyrff Rhestredig, Cyrff Dynodedig neu Gyrff a Dderbyniwyd.

Mae'r ddogfen yma'n amlinellu'r polisïau a'r safonau cyflawni a gafodd eu nodi drwy feincnodi rhagweithiol sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth gweinyddu cost-effeithiol o ansawdd uchel mewn partneriaeth â Chyflogwyr Cronfa Rhondda Cynon Taf.

## 2. Fframwaith Rheoleiddio

| |
|---|
| **Strategaeth Weinyddu'r Gronfa Bensiwn**<br><br>**Dyddiad Cychwyn: 1 Ebrill 2014 (fel y'i diweddarwyd fis Mawrth 2023)** |
| Mae Rheoliad 59(1) o Reoliadau CPLIL (Gweinyddu) 2013 *(edrychwch ar Atodiad 1)* yn galluogi Awdurdod Gweinyddu Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i baratoi a chynnal 'Strategaeth Weinyddu'.<br><br>Mae deddfwriaeth berthnasol yn cynnwys:<br>Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013<br><br>Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) 2014<br><br>Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Buddion Aelodaeth a Chyfraniadau) 2007;<br><br>Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Darpariaethau Trosiannol) 2008;<br><br>Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Terfynu Cyflogaeth yn Gynnar) (Iawndal yn ôl Disgresiwn) (Cymru a Lloegr) 2000;<br><br>Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Datgelu Gwybodaeth) 1996.<br><br>a diwygiadau i'r rheoliadau wedi'u crybwyll uchod. |
| **Mae'r ddogfen yma wedi'i chyflwyno, ei hystyried a'i chadarnhau gan y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiwn ym mis Mawrth 2023** |

## 3. Cysylltu a Cyfathrebu

Mae Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth cyfathrebu a gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer cyflogwyr, aelodau a darpar aelodau o'r cynllun pensiwn. Mae darparu gwasanaeth o ansawdd uchel yn dibynnu ar gydweithrediad yr Awdurdod Gweinyddu yn ogystal â Chyflogwyr y Gronfa.

I gyflawni'r nod yma, bydd pob Awdurdod Cyflogi yn enwebu un person i weithredu fel **Swyddog Cyswllt Pensiynau**, i fod yn brif gyswllt mewn perthynas ag unrhyw agwedd ar weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae cyfrifoldebau'r Swyddog Cyswllt Pensiynau wedi'u rhestru yn ***Atodiad 2***.

Mae cysylltiad rheolaidd yn cael ei gynnal rhwng yr Awdurdod Gweinyddu a Chyflogwyr y Gronfa drwy ddull aml-sianel sy'n cynnwys:

### Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Cyflogwyr

Caiff cyfarfod blynyddol ei gynnal i Gyflogwyr dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran – Gwasanaethau Cyllid, Digidol a Rheng Flaen, sydd wedi dirprwyo cyfrifoldeb gweithredol am y Gronfa Bensiwn. Bydd y prif siaradwyr yn amrywio, o'r Actiwari a Rheolwyr Buddsoddi i arbenigwyr y diwydiant, a bydd cyfle i glywed y newyddion diweddaraf ynghylch gweinyddiaeth y cynllun.

### Fforwm Cyfathrebu ar Faterion Llywodraethu

Mae'r cyfarfod yma'n cael ei gynnal bob tri mis ac yn ymdrin â materion gweinyddu a buddsoddi. Mae'n cynnwys nifer cyfyngedig o gynrychiolwyr sy'n gyflogwyr sydd wedi'u dethol ar adegau penodol ac mae'n cynnwys Cyrff Rhestredig, Cyrff Dynodedig a Chyrff a Dderbyniwyd yn ogystal â chynrychiolwyr sy'n weithwyr. Mae'r Fforwm yn darparu cynrychiolydd ar gyfer y Panel Buddsoddi a Gweinyddu Ymgynghorol.

### Bwrdd Pensiwn Lleol

Mae'r cyfarfod yma'n cael ei gynnal bob tri mis ac yn ymdrin â materion gweinyddu a buddsoddi. Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth gan bob partner – Cyflogwyr, Pensiynwyr, Aelodau Gweithredol/Gohiriedig. Mae'r Bwrdd yn helpu Awdurdod Gweinyddu Cyngor Rhondda Cynon Taf , ac yntau'n 'Rheolwr Cynllun', i wneud y canlynol -

- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r Prif Reoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n ymwneud â llywodraethu a gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion sy'n cael eu pennu mewn perthynas â'r CPLlL gan y Rheolydd Pensiynau; a
- Sicrhau llywodraethu a gweinyddu effeithiol ac effeithlon o'r CPLlL gan y Rheolwr Cynllun.

Mae cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Pensiwn Lleol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Gronfa, www.pensiynaurhct.org.uk

### Pwyllgor y Gronfa Bensiwn

Cafodd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ei sefydlu ym mis Mai 2016. Mae'n ystyried penderfyniadau strategol y Gronfa, ac yn cytuno arnyn nhw, yn unol â'i gylch gorchwyl.
Caiff cofnodion Pwyllgor y Gronfa Bensiwn eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor, [Pori Cyfarfodydd - Pwyllgor y Gronfa Bensiwn - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (moderngov.co.uk)]
Mae Pwyllgor Cyd-lywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwylio cyfuno buddsoddiadau wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cynnwys un aelod etholedig wedi'i enwebu o bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae cofnodion y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr awdurdod lletyol: https://democratiaeth.sirgar.llyw.cymru/Cofnodion

### Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn dangos lefelau cyflawniad yn ôl meincnodau allweddol a baich gwaith yn ogystal â chrynhoi cyflawniadau yn ôl amcanion allweddol y Gronfa Bensiwn ar gyfer y flwyddyn.

### Gwefan

Mae'r Awdurdod Gweinyddu'n darparu gwefan bwrpasol yn arbennig ar gyfer aelodau Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf. Mae'r wefan yma'n cynnig opsiynau hunanwasanaeth trwy Fy Mhensiwn Ar-lein i aelodau gweithredol, gohiriedig a phensiynwyr y Gronfa.

### Cronfa Ddata o Gysylltiadau

Mae rhestr ddosbarthu gyffredinol o gyfeiriadau e-bost pwysig yn cael ei chadw, er enghraifft cysylltiadau pensiwn, rheolwyr cyllid a phersonél allweddol. Mae hyn yn golygu bod modd i ni gyfathrebu â'r bobl berthnasol yn gyflym ac yn effeithlon.

Er enghraifft, rydyn ni'n defnyddio'r cyfrwng yma i roi gwybod am unrhyw faterion sydd dan drafodaeth ar y pryd. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i reoliadau sy'n effeithio ar gyflogwyr y gronfa a'u gweithwyr.

### Cyfarfodydd gyda Chyflogwyr Unigol

Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal gyda chyflogwyr mwy o faint, a sefydliadau bach/canolig eu maint hefyd ar gais. Diben y cyfarfodydd yma yw trafod materion sy'n berthnasol i gyflogwyr penodol, er enghraifft, cyflawniad y Cyflogwr ynghyd â'r Awdurdod Gweinyddu.

Bydd cyfle i drafod unrhyw anawsterau a gafodd y naill barti neu'r llall o ran darparu gwasanaeth. Mae'r Gronfa Bensiwn wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth gweinyddu o safon. Mae'r Safonau Gwasanaeth wedi'u rhestru yn ***Adran 4.***

### Hyfforddi Staff

Os oes digon o adnoddau ar gael i wneud hynny, mae'r Awdurdod Gweinyddu'n darparu gweithdai hyfforddi arbennig ar gyfer datblygu staff, gan gynnwys:

- Trosolwg o'r Broses
- Cwblhau Gwaith Gweinyddu
- Gadael swydd yn gynnar o wirfodd (VER) / Ymddeol yn gynnar a straen pensiwn
- Prosesau Diwedd Blwyddyn
- 2022

## 4. Safonau Gwasanaeth

### Cyfrifoldebau'r Awdurdod Cyflogi

**Dyma brif ddyletswyddau'r Cyflogwr fel sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau:**

4.1 Pennu pwy sy'n gymwys i ddod yn aelod o'r Cynllun a dyddiad cychwyn yr aelodaeth, yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 a'r rheoliadau awto-gofrestru statudol.

4.2 Am gyfnodau o aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014, pennu p'un a oedd y person hwnnw wedi'i gyflogi'n amser llawn, rhan-amser, drwy drefniant amser sy'n amrywio neu'n achlysurol. Os oedd y gweithiwr yn gweithio'n rhan-amser, rhaid i'r Awdurdod Cyflogi bennu hefyd pa gyfran o oriau gweithiwr tebyg llawn amser yw'r oriau yng nghytundeb gwaith y gweithiwr.

4.3 Pennu cyflog gweithiwr ar gyfer gosod cyfradd gyfrannu addas yn ôl y bandiau cyfrannu sydd wedi'u pennu eisoes.

4.4 Pennu cyflog terfynol at ddibenion cyfrifo'r buddion fydd yn ddyledus o'r Cynllun ar gyfer aelodaeth cyn 1 Ebrill 2014 ac i bennu cyflog pensiynadwy 'cyfartaledd cyflog gyrfa wedi'i adbrisio' at ddibenion cyfrifo'r buddion sy'n ddyledus o'r Cynllun ar gyfer aelodaeth ar ôl 1 Ebrill 2014.

4.5 Rhoi cytundebau gwaith i unigolion yn cadarnhau a ydyn nhw'n gymwys i ymuno â'r Cynllun ai peidio. Dylai Cyflogwyr y Gronfa ddatgan yn eu cytundeb fod gan yr aelodau 12 mis o ddyddiad ymuno â'r cynllun i drosglwyddo hawliau pensiwn i mewn i'r CPLlL.

4.6 Rhoi Pecyn Croeso i bob aelod newydd o'r CPLlL ac i aelodau presennol sy'n dechrau swydd arall, sy'n gofyn am wybodaeth am gyfnodau eraill o aelodaeth â'r CPLlL a phensiynau gwasanaeth cyhoeddus eraill. Cynnwys Dechreuwyr Newydd ar y rhyngwyneb I-connect misol.

**4.7** Pan ddaw aelodaeth o'r Cynllun i ben, pennu'r rheswm dros adael a'r hawl i fuddion, a rhoi gwybod i'r Gronfa Bensiwn a'r aelod o'r Cynllun am y penderfyniad cyn gynted ag y bo modd.

**4.8** Rhoi gwybodaeth amserol a chywir i'r Gronfa Bensiwn er mwyn sicrhau bod ansawdd data'r Gronfa yn cael ei gynnal i'r safon uchaf a bod y buddion sy'n daladwy o'r Cynllun yn cael eu cyfrifo'n gywir.

**4.9** Tynnu'r cyfraniadau o gyflog yr aelod a thalu cyfraniadau i'r darparwr CGY (AVC) mewnol o fewn y terfynau amser statudol sydd wedi'u dynodi yn ***Adran 5.***

**4.10** Y Cyflogwr sy'n gyfrifol am ddefnyddio'r pwerau disgresiwn y mae'r rheoliadau'n eu rhoi i Awdurdodau Cyflogi. Mae'r rheoliadau yma hefyd yn mynnu bod y cyflogwr yn cyhoeddi ei bolisi ar y pwerau disgresiwn allweddol yma.

**4.11** Cynnwys rhybudd yn tynnu sylw at hawl y gweithiwr i apelio o dan y CPLIL gydag unrhyw ddatganiad sy'n cael ei roi iddo ynghylch unrhyw benderfyniad sydd wedi'i wneud ynglŷn â'r Cynllun.

**4.12** Penodi person ("y dyfarnwr") i ystyried apeliadau yn unol â Rheoliadau CPLIL 2013

**4.13** Os yw'n bosibl y bydd gweithiwr yn ymddeol yn sgil salwch, dylai'r Cyflogwr drefnu cyfarfod â'r Ymarferydd Meddygol Cofrestredig Annibynnol cymeradwy ar gyfer yr aelod o'r Cynllun yn unol â'r gofynion rheoleiddio. Dylai'r Cyflogwr gyflwyno'r dystysgrif i'r Gronfa Bensiwn.

**4.14** Mae'n ddyletswydd ar y Cyflogwr i gadw cofnod o'u gweithwyr sy'n ymddeol ar sail salwch Haen 3, yn enwedig mewn perthynas â'r adolygiad 18 mis, i sicrhau ei fod e'n cyflawni ei ddyletswyddau deddfwriaethol.

**4.15** Bydd y Cyflogwr yn ad-dalu i'r aelod o'r Cynllun unrhyw gyfraniad a gafodd ei dynnu yn anghywir o gyflog y gweithiwr, ac os oes mwy nag un mis rhwng dyddiad tynnu'r cyfraniad anghywir a dyddiad ei ad-dalu, dylai hefyd dalu llog ar unrhyw gyfraniad o'r fath nad oedd wedi'i dalu i'r Gronfa Bensiwn erbyn hynny.

**4.16** Rhaid i'r Cyflogwr roi gwybodaeth fisol i'r Gronfa drwy ryngwyneb electronig gan ddefnyddio I-Connect. Mae'r rhyngwyneb yn cynnwys gwybodaeth am aelodaeth a chyflogau a chyfraniadau misol. Ar ôl cyflwyno'r wybodaeth bob mis, rhaid talu'r cyfraniadau a'r swm cyfatebol

**4.17** Rhaid i'r Cyflogwr roi gwybodaeth diwedd blwyddyn wedi'i chysoni hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn, mewn fformat cymeradwy, gan gydbwyso'r symiau sydd wedi'u talu i'r Gronfa yn ystod y flwyddyn ac uwchlwytho cyfanswm y cyfraniadau ar gyfer eu haelodau yn ystod y flwyddyn drwy I-Connect. Dylai hyn gael ei ddarparu erbyn 30/04/YY fan bellaf a'i lofnodi gan swyddog awdurdodedig.

**4.18** Y Cyflogwr sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gofynion o ran ariannau ymddeoliad cynnar fel sydd wedi'i bennu gan yr Awdurdod Gweinyddu. Fydd y Gronfa Bensiwn ddim yn talu unrhyw fuddion i'r aelod dan sylw nes bydd y Cyflogwr yn cydymffurfio â gofynion o'r fath.

**4.19**Bydd y Cyflogwr yn talu llog ar y taliadau sy'n ddyledus ac sy'n hwyr o fwy na mis, cyn pen **14 diwrnod gwaith** o dderbyn anfoneb *(Edrychwch ar Atodiad 1)*.

**4.20** Bydd y Cyflogwr yn darparu gwybodaeth fel sy'n briodol er mwyn rhoi gwybod i'r Gronfa Bensiwn am unrhyw lwyth gwaith mawr sydd ar ddod o ganlyniad i amgylchiadau fel diswyddiadau arfaethedig. Bydd angen cytuno ymlaen llaw ar geisiadau mawr o dros 10 amcangyfrif am ei fod yn waith swmpus, a bydd angen cymaint o rybudd â phosibl ar y Gronfa Bensiwn i sicrhau bod modd ei gyflawni o fewn y terfynau amser cytunedig. Bydd angen cytuno ar y terfynau amser yma ar wahân.

**4.21** Os yw aelod yn gadael y Cynllun a'i gyfraniadau heb eu tynnu'n llawn am ba bynnag reswm, bydd y Cyflogwr yn talu cyfraniadau dyledus yr aelod a'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar unwaith.

**4.22** I sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 1998, (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Rheoliad UE 2016/679) a ddaeth i rym ar 28 Mai 2018) bydd y Cyflogwr yn diogelu gwybodaeth sydd wedi'i hanfon i'r Gronfa Bensiwn rhag cael ei datgelu'n amhriodol.

**4.23** Gweithio gyda'r Awdurdod Gweinyddu a darparu'r data ôl-weithredol angenrheidiol a'r dilysiad dilynol sy'n ofynnol i weithredu rhwymedïau McCloud.

**TABL 1**
**Safonau gwasanaeth penodol ar gyfer cyflogwyr i'w helpu i ddarparu gwasanaeth effeithiol ac effeithlon:**

| Ffurflen | Sylfaenol | Amserlen |
|---|---|---|
| Pecyn Croeso | Sicrhau bod dechreuwr newydd wedi derbyn 'Pecyn Croeso' cyn pen **mis** o ddod yn aelod o'r cynllun. | 1 mis |
| | | |
| NI4 | Os oes newid sylweddol yn digwydd yn amgylchiadau'r aelod, dylai'r ffurflen briodol (NI4) gael ei hanfon i'r Gronfa Bensiwn cyn pen **10 diwrnod gwaith** oni bai fod I-connect yn rhoi gwybod am hyn. | 10 diwrnod gwaith |
| | | |
| Absenoldeb Absenoldeb | Pan fydd aelod wedi cael cyfnod o absenoldeb awdurdodedig heb dâl, rhaid i'r cyflogwr roi gwybodaeth i'r gweithiwr (pan fydd yn dychwelyd i'r gwaith) am Dâl Pensiynadwy Tybiedig yn ystod y cyfnod o absenoldeb a chadarnhau ym mha ran o'r cynllun mae e. Caiff yr aelod | Rhaid anfon cais CPY i'r Awdurdod Gweinyddu cyn |

| | | |
|---|---|---|
| | wedyn ddewis prynu'r pensiwn "coll" yn ôl drwy dalu Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol (CPY). Dylai'r aelod gyfrifo cost y CPY drwy ddefnyddio'r gyfrifiannell ar-lein: www.lgpsmember.org. Os yw'r aelod yn dewis peidio â phrynu'r pensiwn yn ôl, rhaid i'r cyflogwr hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu am y toriad mewn gwasanaeth. Does dim rhaid i'r aelod brynu CPY o fewn cyfnod penodol, ond bydd y gost yn cynyddu wrth i'r aelod fynd yn hŷn. | gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r aelod wneud ei benderfyniad. |
| | | |
| Mamolaeth | Mae cyfraniadau pensiwn yn daladwy yn ystod cyfnod mamolaeth arferol ar gyflog. Am unrhyw gyfnodau o absenoldeb mamolaeth ychwanegol heb gyflog, rhaid i'r Cyflogwr hysbysu'r aelod o'r Tâl Pensiynadwy Tybiedig am y cyfnod absenoldeb mamolaeth heb gyflog a chadarnhau ym mha ran o'r cynllun mae hi, pan fydd hi'n dychwelyd i'r gwaith. Caiff yr aelod wedyn ddewis prynu'r pensiwn "coll" yn ôl drwy dalu Cyfraniad Pensiwn Ychwanegol (CPY). Dylai'r aelod gyfrifo cost y CPY drwy ddefnyddio'r gyfrifiannell ar-lein: www.lgpsmember.org. Dylai'r Cyflogwr anfon ffurflenni at yr aelod i ganfod a yw'r aelod yn dymuno talu cyfraniadau am y cyfnod mamolaeth heb gyflog, neu a yw'n dymuno i'r cyfnod gael ei drin yn doriad mewn gwasanaeth. | Rhaid anfon cais CPY i'r Awdurdod Gweinyddu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r aelod wneud ei benderfyniad. |
| | | |
| CPINFO<br><br>GPR<br><br>Adroddiad Diwedd Blwyddyn BB/BB<br><br>Ymholiad Data | Ymateb ysgrifenedig i unrhyw ymholiad gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys materion diwedd blwyddyn, a gafodd ei gyflwyno yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, cyn pen **15 diwrnod gwaith** o dderbyn yr ymholiad. Os yw'r Cyflogwr yn ystyried bod cais yn arbennig o gymhleth, ac yn galw am ragor o amser, bydd y Gronfa Bensiwn yn cael gwybod beth fydd y terfyn amser tebygol ar gyfer ymdrin â'r ymholiad. | 15 diwrnod gwaith |
| | | |
| NI2 (Ffurflen Derfynu) | Rhaid i'r Cyflogwr roi gwybod bod gweithiwr wedi gadael y Cynllun drwy ddarparu'r ffurflenni priodol ar gyfer rhai sy'n gadael (NI2) cyn pen **10 diwrnod gwaith** o'r dyddiad y bydd y gweithiwr yn gadael y Cynllun.<br><br>Os yw aelod yn gadael a hawl ganddo i dderbyn buddion pensiwn ar unwaith, lle bo'n bosibl bydd ffurflen NI2 yn cael ei darparu cyn iddo ymddeol, ac ym mhob achos cyn pen **5 diwrnod gwaith** o'i ymddeoliad.<br><br>Os yw aelod yn marw yn ystod cyfnod gwasanaeth, bydd y Gronfa Bensiwn yn cael gwybod cyn pen **5 diwrnod gwaith** o farwolaeth yr aelod. | 10 diwrnod gwaith<br><br>5 diwrnod gwaith<br><br>5 diwrnod gwaith |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| Ddim yn berthnasol | Bydd y Cyflogwr yn rhannu unrhyw wybodaeth sy'n cael ei darparu gan y Gronfa Bensiwn ar gyfer ei haelodau a/neu ddarpar aelodau cyn pen **10 diwrnod gwaith** o'i derbyn. | 10 diwrnod gwaith |
| | | |

**Cyfrifoldebau'r Awdurdod Gweinyddu**

**Prif ddyletswyddau Awdurdod Gweinyddu fel sydd wedi'u nodi yn y rheoliadau:**

**4.22** Bydd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn derbyn penderfyniad y Cyflogwr ynglŷn â chyfraddau priodol cyfraniadau'r gweithiwr fel sydd wedi'u cyhoeddi ar ffurf bandiau cyfrannu'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

**4.23** Penderfynu sut y mae gwasanaeth blaenorol neu gyflogaeth flaenorol gweithiwr yn mynd i gyfrif at ddibenion pensiwn, ac a yw gwasanaeth o'r fath yn cyfrif fel 'cyfnod aelodaeth'.

**4.24** Hysbysu pob aelod ynglŷn â'r modd y mae eu gwasanaeth yn cael ei gyfrif.

**4.25** Cynnal cofnod i bob aelod sy'n cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer cyfrifo buddion yn gywir lle bo'r Cyflogwr wedi darparu data ariannol diwedd blwyddyn cywir y mae modd eu defnyddio.

**4.26** Cyfrifo a thalu'r buddion priodol, yn seiliedig ar fanylion y cofnod a'r dyddiad terfynu a manylion cyflog sydd wedi'u darparu gan y Cyflogwr os yw gweithiwr yn rhoi'r gorau i weithio, neu i'w aelodaeth o'r Cynllun am ba reswm bynnag.

**4.27** Rhoi manylion am hawliau i fuddiolwyr.

**4.28** Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n darparu Amcangyfrif yn dilyn cais gan y Cyflogwr ar ôl derbyn ffurflen (Cais am Amcangyfrif) wedi'i llenwi'n llawn cyn pen 5 diwrnod gwaith. Dim ond os bu newid arwyddocaol o dros £500 yng nghyflog pensiynadwy'r aelod neu newid o dros 3 mis yn y dyddiad gadael fydd ail amcangyfrif yn cael ei ddarparu.

**4.29** Cynyddu pensiynau o bryd i'w gilydd yn unol â darpariaethau Deddfau a Gorchmynion Cynyddu Pensiynau. Cynyddu buddion 'Cyfartaledd cyflog wedi'i adbrisio' yn unol â'r Gorchymyn Trysorlys Ei Mawrhydi cyhoeddedig.

**4.30** Talu buddion i'r buddiolwyr priodol yn unig a chymryd camau i leihau'r posibilrwydd o dwyll.

**4.31** Cynnal 'person penodedig' at ddibenion Gweithdrefn Datrys Anghydfod yn Fewnol y Cynllun (IDRP).

**4.32** Sicrhau bod gwybodaeth ‘amserol’ yn cael ei dosbarthu ar ffurf cylchlythyron, llyfrynnau a deunydd arall i fodloni gofynion Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol a Phersonol (Datgelu Gwybodaeth) 2013. Bydd hyn yn cynnwys paratoi'r cyhoeddiadau blynyddol canlynol:

- Adroddiad y Gronfa Bensiwn
- Cylchlythyr i Bensiynwyr

**4.33** Darparu gwybodaeth a chymorth gyda’r cynllun a’i weinyddiaeth ar ffurf:

- Person cyswllt penodedig
- Nodiadau Canllaw
- Bwletinau cyffredinol
- Hyfforddiant datblygu staff
- Gwefan/Hunanwasanaeth Aelodau
- Desg gymorth

**4.34** Penodi Actiwari ar gyfer y Gronfa at ddiben prisio'r Gronfa Bensiwn bob tair blynedd a darparu cyngor actiwaraidd achlysurol pan fydd angen.

**4.35** Penodi’r holl ymgynghorwyr sydd eu hangen i alluogi’r person penodedig i gyflawni’r dyletswyddau gofynnol yn unol â Gweithdrefn Datrys Anghydfod yn Fewnol y Cynllun.

**4.36** Cydgysylltu ag Actiwari’r Gronfa ar ran y Cyflogwyr mewn perthynas â’r broses prisio Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf bob tair blynedd.

**4.37** Yr Awdurdod Gweinyddu sy’n gyfrifol am ddefnyddio ei bwerau disgresiwn mewn perthynas â disgresiynau’r Awdurdod Gweinyddu cyhoeddedig.

**4.38** I sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Diogelu Data 1998, (Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (Rheoliad UE 2016/679) a ddaeth i rym ar 28 Mai 2018) bydd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn diogelu gwybodaeth rhag cael ei datgelu’n amhriodol. Bydd gwybodaeth sy'n cael ei chadw gan y Gronfa Bensiwn yn cael ei defnyddio ar gyfer gweinyddu'r cynllun. Bydd y Gronfa yn cadw ac yn cyhoeddi ei Hysbysiad Preifatrwydd.

**4.39** Bydd yr Awdurdod Gweinyddu’n cysylltu â’r Actiwari a Chronfeydd Pensiwn eraill mewn perthynas â Gwerthoedd Trosglwyddo (gan gynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer swmp-drosglwyddo) ar ran y Cyflogwr.

**4.40** Bydd yr Awdurdod Gweinyddu'n cysylltu ag/ymateb i'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, Bwrdd Cynghori’r Cynllun, y Rheoleiddiwr Pensiynau ac Adran Actiwari’r Llywodraeth yn unol â therfynau amser penodedig ar ran Cronfa Rhondda Cynon Taf.

**4.41** Monitro sgorau data cyffredin ac amodol yn unol â chod ymarfer y rheoleiddwyr pensiynau-llywodraethu a gweinyddu cynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus

**4.42** Bydd yr Awdurdod Gweinyddu yn cynnal 'Cofrestr Risg' ar gyfer y Gronfa a fydd yn cael ei monitro'n rheolaidd yn fforymau Llywodraethu'r Gronfa.

**TABL 2**
**Safonau Gwasanaeth Penodol yr Awdurdod Gweinyddu i helpu i sicrhau bod gwasanaeth effeithiol ac effeithlon yn cael ei ddarparu:**

| Pwnc | Sylfaenol | Amserlen |
|---|---|---|
| | | |
| Trosglwyddo data I Mewn | Bydd y Gronfa Bensiwn yn cyfrifo amcangyfrif o'r buddion bydd gwerth trosglwyddo yn ei brynu i'r aelod ac yn cynhyrchu eglureb o fewn ***10 diwrnod gwaith*** i dderbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol. Mae gan bob aelod hawl i gael un dyfynbris fesul trosglwyddiad – bydd rhaid i'r aelod dalu £116, ynghyd â TAW, am unrhyw geisiadau dilynol. | 10 diwrnod gwaith |
| | | |
| Ad-daliadau | Bydd y Gronfa Bensiwn yn talu ad-daliadau o fewn ***10 diwrnod gwaith*** i dderbyn y cais ffurfiol am daliad cyn belled â bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu gan y Cyflogwr. | 10 diwrnod gwaith |
| | | |
| Aelodau sy'n gadael yn gynnar | Bydd y Gronfa Bensiwn yn talu ad-daliadau o fewn ***10 diwrnod*** gwaith i dderbyn y cais ffurfiol am daliad cyn belled â bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu gan y Cyflogwr. | 10 diwrnod gwaith |
| | | |
| Ysgariad | Os yw aelod o'r Cynllun yn ysgaru neu'n diddymu Partneriaeth Sifil, gall yr aelod (neu ei gyfreithiwr penodedig) ofyn am Werth Cyfwerth ag Arian Parod ei hawliau pensiwn a bydd hwn yn cael ei ddarparu o fewn ***10 diwrnod gwaith.*** Bydd unrhyw gostau eraill am roi gwybodaeth neu gydymffurfio â gorchymyn llys yn cael eu hadennill gan yr aelod neu ei gyn-briod neu gyn-bartner sifil yn unol ag Atodlen Ffïoedd y Gronfa Bensiwn. | 10 diwrnod gwaith |
| | | |
| Datganiadau buddion | Byddwn ni'n cyhoeddi Datganiadau Buddion Blynyddol i bob aelod gweithredol a gohiriedig. | Bob blwyddyn (erbyn 31 Awst) |
| | | |
| Amcangyfrifon o fuddion | Bydd y Gronfa Bensiwn yn defnyddio'i disgresiwn i ddarparu amcangyfrif o fuddion os yw aelod wedi derbyn Datganiad Buddion Blynyddol. Yn y lle cyntaf, bydd aelodau'n cael eu cyfeirio at Fy Mhensiwn Ar-lein. Lle bo amcangyfrif o fuddion yn cael ei roi, bydd y Gronfa Bensiwn yn rhoi darlun | 10 diwrnod gwaith |

| | | |
|---|---|---|
| | cyn pen ***10 diwrnod gwaith*** o gael ffurflen gais sydd wedi'i llenwi'n llawn. | |
| | | |
| Gadael swydd yn gynnar o wirfodd Amcangyfrifon o fuddion | Bydd amcangyfrifon yn sgil ceisiadau gan gyflogwyr ar ran rhai sy'n gadael yn gynnar o'u gwirfodd (VER)/ymddeol yn gynnar yn cael eu rhoi o fewn 5 diwrnod gwaith i dderbyn ffurflen gais am amcangyfrif wedi'i chwblhau'n llawn. Bydd angen cytuno ar unrhyw geisiadau lluosog (hynny yw, mwy na 10) ymlaen llaw. | 5 diwrnod gwaith |
| | | |
| Gwneud y gorau o fuddion | Bydd unrhyw aelod sy'n dymuno talu cyfraniadau ychwanegol i brynu Cyfraniadau Pensiwn Ychwanegol yn y CPLIL yn derbyn amcangyfrif o fewn ***10 diwrnod gwaith (ond dim ond os nad oes modd iddyn nhw gyfrifo hyn ei hunan drwy ddefnyddio'r gyfrifiannell CPLIL 2014 ar-lein)***. | 10 diwrnod gwaith |
| | | |
| Trosglwyddo Allan | I aelodau sy'n dymuno trosglwyddo eu buddion o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL), bydd y Gronfa Bensiwn yn darparu eglureb o fewn<br>***10 diwrnod gwaith*** o gael yr holl wybodaeth angenrheidiol. Bydd y darlun yma wedi ei warantu am dri mis. Mae hawl gan yr Aelodau i gael un dyfynbris fesul trosglwyddiad bob blwyddyn. Mae'r Adran Pensiynau yn cadw'r hawl i godi tâl o £116 ynghyd â TAW am unrhyw ddyfynbrisiau ychwanegol. | 10 diwrnod gwaith |
| | | |
| Ymddeol | Ar ymddeoliad yr aelod, bydd y Gronfa Bensiwn yn anfon manylion am y buddion sy'n daladwy ac yn talu'r cyfandaliad arian parod di-dreth o fewn ***5 diwrnod gwaith*** i dderbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol gan y cyflogwr ac ar ôl derbyn Pecyn Cyn Ymddeol wedi'i lenwi'n llawn gan yr aelod. | 5 diwrnod gwaith |
| | | |
| Marw | Pan fydd aelod yn marw, bydd y Gronfa Bensiwn yn darparu manylion am y buddion sy'n daladwy o fewn ***7 diwrnod gwaith*** i dderbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol.<br>Bydd y Gronfa Bensiwn yn talu cyfandaliad y grant marwolaeth o fewn ***5 diwrnod gwaith*** i dderbyn Grant Profiant (neu ddogfennau priodol eraill). | 7 diwrnod gwaith<br><br>5 diwrnod gwaith |
| | | |
| Prisiad bob 3 blynedd | Bydd y Gronfa Bensiwn yn cydymffurfio â'r terfynau amser sydd wedi'u cytuno â'r Actiwari ar gyfer sicrhau bod cyfraddau cyfraniadau newydd yn cael eu darparu cyn gynted ag y bo modd. | 12 mis o'r dyddiad prisio |
| | | |

## Cyflawniad Anfoddhaol

Bydd y Cyflogwr a'r Awdurdod Gweinyddu'n ymdrechu i ddatrys unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflawniad anfoddhaol sydd wedi'i nodi cyn gynted ag y bo modd, ond os yw'r cyflawniad yn parhau'n anfoddhaol a heb ei ddatrys, bydd angen:

- Paratoi adroddiad ffurfiol ar gyfer Panel Buddsoddi a Gweinyddu Ymgynghorol y Gronfa Bensiwn sy'n rhoi manylion cyflawniad anfoddhaol naill ai'r Awdurdod Gweinyddu neu'r Cyflogwr (lle gallai fod costau i'w hadfer fel sydd wedi'u nodi yn Nhabl 3 isod)

**Adennill Costau** — **TABL 3**

Os yw diffyg cydymffurfiaeth cyson y Cyflogwr wedi arwain at gostau anghymesur, sy'n niweidio Cyflogwyr eraill y Gronfa, bydd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn ceisio adennill y costau ychwanegol yma gan y Cyflogwr dan sylw.

Bydd y Gronfa'n gwneud hynny o dan yr amgylchiadau canlynol (ymhlith amgylchiadau eraill):

- ❑ Methiant parhaus i ddarparu gwybodaeth berthnasol ac amserol ar gyfer Awdurdod Gweinyddu, Aelod o'r Cynllun neu barti arall â buddiant yn unol â'r safonau gwasanaeth cytunedig (fel sydd wedi'u rhestru yn Adran 4, Tabl 1) a disgwyliadau'r Cynllun;
- ❑ Costau ychwanegol am ddarparu cyngor trydydd parti arbenigol penodol ar weinyddu'r cynllun ar ran y cyflogwr, gan gynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu iddyn nhw: gwasanaethau actiwaraidd, gwasanaethau ymarferwyr meddygol galwedigaethol a gwasanaethau cyfreithiol.
- ❑ Achosion lle mae cyflawniad yr Awdurdod Cyflogi wedi cyfrannu'n uniongyrchol at yr Awdurdod Gweinyddu yn derbyn dirwyon gan y Rheolydd Pensiynau (edrychwch ar Adran 5), yr Ombwdsmon Pensiynau, Cyllid a Thollau ei Mawrhydi neu gorff rheoleiddio arall.
- ❑ Methiant i dynnu a gwneud taliadau ar ran y gweithiwr a'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn o fewn terfynau amser cytunedig.

**Hysbysiad**

Os yw'r Awdurdod Gweinyddu'n penderfynu ei bod hi'n briodol adennill costau, bydd rhybudd ysgrifenedig yn cael ei roi i'r Awdurdod Cyflogi, a fydd yn cynnwys y canlynol:

- ❑ Y rheswm pam, yn ei farn ef, y mae cyflawniad gwael yr Awdurdod Cyflogi wedi arwain at y gost ychwanegol;
- ❑ Swm y gost ychwanegol a'r sail dros ei hawlio; a'r
- ❑ Ddarpariaeth yn y Strategaeth Weinyddu sy'n berthnasol i'r penderfyniad sydd wedi'i wneud.

## 5. Goblygiadau Ariannol

### Costau Gwasanaeth

5.1 Y Gronfa Bensiwn sy'n gyfrifol am ysgwyddo'r costau gweinyddu yn uniongyrchol, a chyfrifoldeb yr Awdurdod Gweinyddu yw sicrhau gwerth am arian bob amser. Pan fydd costau ychwanegol yn cael eu talu am waith nad yw'n gyffredin i bob Cyflogwr, neu gost nad oes modd ei hystyried yn gost gweinyddu, efallai y bydd yn ofynnol i'r Cyflogwr ad-dalu'r costau hynny yn uniongyrchol.

5.2 Bydd yn ofynnol i gyflogwyr dalu am gostau gweinyddu mewn perthynas ag ymchwilio a gweithredu Cytundeb Gohirio Dyled neu fesur arall o dan Reoliad 64. Hysbysir cyflogwyr os yw taliadau gweinyddu ychwanegol yn debygol. Bydd ffioedd proffesiynol yn cael eu hailgyfeirio at y Cyflogwr i'w talu ym mhob achos. Does dim ots os ydy cytundeb yn cael ei drefnu yn hwyrach.

### Cyfraniadau Cyflogwyr sy'n rhan o'r Gronfa

5.3 Dydy cyfradd cyfraniadau'r Cyflogwr ddim yn sefydlog. Mae gofyn i Gyflogwyr y Gronfa dalu cymaint ag y bydd ei angen i sicrhau bod y gyfran o'r Gronfa sy'n ymwneud â'u sefydliad yn ddigon i dalu eu rhwymedigaethau. Caiff Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ei phrisio bob tair blynedd gan Actiwari'r Gronfa. Bydd yr Actiwari'n archwilio asedau a rhwymedigaethau'r Gronfa ac yn asesu cyfradd cyfraniadau'r Cyflogwr ar gyfer y tair blynedd nesaf.

### Trefniadau Talu

5.4 Cyfrifoldeb y Cyflogwr yw sicrhau bod cyfraniadau'r gweithwyr a'r cyflogwr yn cael eu tynnu ar y gyfradd gywir. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gyfraniadau sy'n ddyledus os yw gweithiwr wedi cael caniatâd i fod yn absennol ar gyflog gostyngol neu'n ddigyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol y mae'r Gronfa Bensiwn yn cyfarwyddo'r Cyflogwr i'w casglu. Rhaid i'r symiau sy'n cael eu talu i'r Gronfa Bensiwn adlewyrchu'r cyfraniadau sy'n cael eu tynnu.

5.5 Dylid talu cyfraniadau (gan gynnwys unrhyw daliadau diffyg) i'r Gronfa Bensiwn bob mis a dylid anfon manylion y taliadau gyda nhw (wedi'u hardystio gan swyddog awdurdodedig) – hynny yw, y cyfnod pan oedd y cyfraniadau'n ddyledus, cyfanswm y tâl pensiynadwy ar gyfer yr aelodau ym mhrif adran y cynllun a chyfraniadau'r cyflogwr wedi'u didynnu, cyfanswm y tâl pensiynadwy ar gyfer aelodau yn yr adran 50/50 a chyfraniadau'r cyflogwr wedi'u didynnu, cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer y cyfnod dan sylw.

5.6 Dylai pob cyfraniad (gan gynnwys Cyfraniadau Ychwanegol Rheolaidd) gael eu credydu i'r Gronfa Bensiwn heb oedi ac o fewn y terfyn amser statudol, sef cyn y 19eg o'r mis ar ôl y mis y cawson nhw eu tynnu yn unol â gofynion Deddf Pensiwn 1995. Mae modd hysbysu'r Rheoleiddiwr Pensiwn os na fydd y cyfraniadau yn cael eu derbyn o fewn yr amser yma yn unol â'r Polisi Gweithredu'n Groes i Amodau'r Gronfa. Os yw'r cyfraniadau'n ddyledus ers mwy na mis, bydd rhaid i'r cyflogwr dalu llog arnyn nhw, ***Edrychwch ar Atodiad 1.***

**5.7** Bydd y Cyflogwr yn sicrhau ei fod yn talu pob Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol (CGY/AVC) gan ei weithwyr i'r darparwr CGY/AVC mewnol yn ôl y drefn sydd wedi'i chyhoeddi ac erbyn y 19eg o'r mis yn dilyn tynnu'r cyfraniad.

**5.8** Bydd y darparwr CGY/AVC Mewnol yn amlygu toriad i'r Awdurdod Gweinyddu yn y lle cyntaf a bydd y Rheoleiddiwr Pensiwn yn cael ei hysbysu yn unol â Deddf Pensiynau 1995. Os bydd dirwy reoleiddiol, bydd gofyn i Gyflogwr y Gronfa ei had-dalu.

## 6. Achlysuron Hysbysadwy

**6.1** Dylai cyflogwyr sicrhau eu bod yn ymgysylltu â'r Gronfa mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd a allai effeithio'n sylweddol ar eu cyfrifoldebau ariannol neu eu gallu i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny, 'digwyddiadau hysbysadwy'. Dyma rai enghreifftiau (nodwch - nid rhestr gyflawn yw hon):

- Penderfyniad a fydd yn cyfyngu aelodaeth weithredol y cyflogwr yn y Gronfa yn y dyfodol, neu'n arwain at ostyngiad sylweddol yng nghyflog pensiynadwy CPLlL
- Unrhyw ailstrwythuro neu ddigwyddiad arall a allai effeithio'n sylweddol ar aelodaeth y cyflogwr, gan gynnwys penderfyniad i roi'r gorau i'r busnes
- Newid yn statws cyfreithiol neu gyfansoddiad y cyflogwr a allai beryglu ei gyfranogiad yn y Gronfa
- Os bernir bod y cyflogwr wedi bod yn gysylltiedig â masnachu anghyfiawn
- Os cafwyd unrhyw uwch bersonél, e.e. cyfarwyddwyr, perchnogion neu uwch swyddogion, yn euog o drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd, yn enwedig lle mae'n gysylltiedig â busnes y cyflogwr
- Lle mae'r cyflogwr wedi torri ei gyfamod bancio neu yn disgwyl hynny.
- Manylion unrhyw hysbysiad gwella (neu gyfwerth) a gyflwynir gan y rheolydd priodol, e.e. Asiantaeth Cyllido a Sgiliau Addysg, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, y Comisiwn Elusennau, Rheoleiddiwr Tai Cymdeithasol ac ati Llywodraeth Cymru, neu rybudd A114 ar gyfer awdurdodau lleol.

**6.2** Dylai cyflogwyr ddarparu'r wybodaeth yma cyn i'r digwyddiad ddigwydd (lle bo hynny'n bosibl) a chyn gynted ag sy'n ymarferol wedi hynny.

## 7. Polisïau Cysylltiedig

Rhaid i Awdurdodau Gweinyddu sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn cael eu cynnal a'u datblygu i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

Mae trefniadau llywodraethu ar gyfer Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf wedi'u crynhoi a'u hegluro mewn sawl dogfen allweddol sy'n ymwneud â stiwardiaeth effeithiol y Gronfa.

Datganiad Cydymffurfio Llywodraethu cyffredinol sy'n nodi safle'r Gronfa yn erbyn safonau ymarfer gorau'r Llywodraeth.

***Datganiad Polisi Llywodraethu*** sy'n cynnig trosolwg o strwythur llywodraethu, gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â chyflogwyr y cynllun.

Rydyn ni'n ymrwymo i gynnig gwasanaeth cyfathrebu a gwybodaeth cynhwysfawr i'r gweithwyr sy'n cymryd rhan ac aelodau o'r cynllun pensiynau. Bwriwch olwg ar ein ***Datganiad Polisi Cyfathrebu*** i ddarllen am y gwasanaethau.

Y ***Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi*** sy'n dangos yn fanwl sut rydyn ni'n rheoli buddsoddiadau'r Gronfa.

Y ***Datganiad Strategaeth Cyllido*** sy'n rhoi crynodeb o sut y byddwn ni'n ariannu ein rhwymedigaethau pensiwn, a pholisi 'Gweithwyr yn Gadael'.

Mae'r Gronfa hefyd yn cadw ***Cofrestr Risg***, sy'n helpu i fonitro risgiau posibl a chamau lliniaru cysylltiedig.

Mae pob un o'r dogfennau yma i'w gweld yn adran Llywodraethu a Buddsoddi ein gwefan bensiynau, neu gysylltwch â'n desg gymorth am gopi.

## 8. Rheoli ac Adolygu

### Cynrychiolydd Enwebedig

8.1 Bydd y Cyflogwr yn enwebu person i fod yn gyfrifol am faterion pensiwn ac i weithredu fel prif gyswllt yr Awdurdod Gweinyddu â'r Cyflogwr. Y person yma fydd y Swyddog Cyswllt Pensiynau ac mae ei gyfrifoldebau allweddol wedi'u rhestru yn ***Atodiad 2***.

Rhaid i'r Swyddog hysbysu'r Gronfa Bensiwn ar unwaith os oes unrhyw newidiadau sylweddol i lofnodwyr awdurdodedig neu gysylltiadau allweddol eraill o fewn yr Awdurdod Cyflogi.

### Llofnodwyr Awdurdodedig

8.2 Rhaid i 'Swyddog Awdurdodedig', y mae ei enw ac enghraifft o'i lofnod wedi'u cofnodi yn ***Atodiad 3*** y ddogfen yma, lofnodi pob dogfen a/neu gyfarwyddiadau sy'n cael eu derbyn gan gyflogwr. Mae'r Swyddogion Awdurdodedig yn gyfrifol am yr holl wybodaeth sy'n cael ei throsglwyddo i'r Awdurdod Gweinyddu. Fydd y Gronfa Bensiwn ddim yn gweithredu ar unrhyw wybodaeth oni bai fod swyddog awdurdodedig cydnabyddedig wedi'i llofnodi.

Rhaid hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu am unrhyw newid arfaethedig i naill ai'r 'Swyddog Cyswllt Pensiynau' neu'r rhestr o 'lofnodwyr awdurdodedig' a bydd yr Awdurdod yn darparu'r dogfennau angenrheidiol i'r Cyflogwr eu cwblhau.

Cyfrifoldeb y Cyflogwr yw sicrhau bod y 'Swyddog Cyswllt Pensiynau', a'r rhestr o 'lofnodwyr awdurdodedig' yn gywir a hysbysu'r Awdurdod Gweinyddu ar unwaith ynglŷn ag unrhyw newid i'r naill neu'r llall.

### Adolygu

8.3 Bydd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn adolygu'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.

Bydd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn parhau i geisio gwella'r cyfathrebu rhyngddi â'r Awdurdodau Cyflogi.

Gall cyflogwyr gynnig awgrymiadau ynglŷn â sut i wella'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau i'w hystyried gan Gronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar unrhyw adeg.

Bydd Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf yn adolygu'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ar ôl ymgynghori â'r bobl briodol. Yna, bydd Strategaeth Gweinyddu Pensiynau ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi a'i dosbarthu i Awdurdodau Cyflogi Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ac i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Mae croeso i gyflogwyr drafod unrhyw agwedd ar y Strategaeth Gweinyddu Pensiynau gyda'r Gronfa Bensiwn ar unrhyw adeg. Croeso hefyd i gyflogwyr ymweld â'r Gronfa Bensiwn ar unrhyw adeg o roi gwybod ymlaen llaw.

## 9. Atodiadau

### Atodiad 1 Rheoliadau sy'n berthnasol i'r ddogfen yma

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013**

**Rheoliad 59 Strategaeth Gweinyddu Pensiynau.**

(1) Caiff awdurdod gweinyddu baratoi datganiad ysgrifenedig o bolisïau'r awdurdod mewn perthynas ag unrhyw rai o'r materion sydd wedi'u crybwyll ym mharagraff (2) fel sy'n briodol yn ei farn ef (“ei strategaeth gweinyddu pensiynau”) ac, os yw'n gwneud hynny, mae paragraffau (3) i (7) yn gymwys.

(2) Dyma’r materion—

(a) gweithdrefnau ar gyfer cysylltu a chyfathrebu ag awdurdodau cyflogi y mae’n awdurdod gweinyddu ar eu cyfer (“ei awdurdodau cyflogi”);

(b) pennu’r lefelau cyflawniad y mae disgwyl i’r awdurdod gweinyddu a’i awdurdodau cyflogi eu cyrraedd wrth gyflawni eu swyddogaethau mewn perthynas â’r Cynllun drwy wneud y canlynol—

(i) pennu targedau cyflawniad,

(ii) gwneud cytundebau ynghylch lefelau cyflawniad a materion cysylltiedig; neu

(iii) unrhyw ddulliau eraill sy’n briodol ym marn yr awdurdod gweinyddu;

(c) gweithdrefnau sy’n ceisio sicrhau bod yr awdurdod gweinyddu a’i awdurdodau cyflogi’n cydymffurfio â gofynion statudol mewn perthynas â’r swyddogaethau hynny ac unrhyw gytundeb ynglŷn â lefelau cyflawniad;

(ch) gweithdrefnau ar gyfer gwella’r cyfathrebu gwybodaeth rhwng yr awdurdod gweinyddu a’i awdurdodau cyflogi ynghylch materion sy’n ymwneud â’r swyddogaethau hyn;

(d) yr amgylchiadau lle gall yr awdurdod gweinyddu ystyried rhoi rhybudd ysgrifenedig i unrhyw un o’i awdurdodau cyflogi o dan reoliad 43(2) yn sgil cyflawniad

anfoddhaol yr awdurdod hwnnw wrth gyflawni ei swyddogaethau Cynllun o’i fesur yn erbyn lefelau cyflawniad sydd wedi'u pennu o dan is-baragraff (b);

(dd) bod yr awdurdod gweinyddu yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol sy’n ymdrin â'r canlynol —

(i) i ba raddau y mae’r awdurdod hwnnw a’i awdurdodau cyflogi wedi cyflawni’r lefelau cyflawniad sydd wedi'u pennu o dan is-baragraff (b), ac

(ii) unrhyw faterion eraill sy’n codi o’i strategaeth gweinyddu pensiynau sy’n briodol i’w crybwyll yn ei farn ef; a

(e) unrhyw faterion eraill y mae’r awdurdod gweinyddu’n eu hystyried yn addas i’w cynnwys yn y strategaeth honno ar ôl ymgynghori â’i awdurdodau cyflogi ac unrhyw bobl briodol eraill.

(3) Rhaid i awdurdod gweinyddu —

(a) adolygu ei strategaeth gweinyddu pensiynau; a

(b) gwneud diwygiadau priodol yn sgil newid sylweddol yn ei bolisïau mewn perthynas ag unrhyw fater sydd wedi’i gynnwys yn y strategaeth.

(4) Wrth baratoi neu adolygu a diwygio ei strategaeth gweinyddu pensiynau, rhaid i awdurdod gweinyddu ymgynghori â’i awdurdodau cyflogi ac unrhyw bobl eraill a ystyria’n briodol.

(3) Rhaid i awdurdod gweinyddu gyhoeddi—

(a) ei strategaeth gweinyddu pensiynau; a

(b) y strategaeth ddiwygiedig, wedi iddo wneud unrhyw newidiadau iddo.

(6) Pan fo awdurdod gweinyddu’n cyhoeddi ei strategaeth gweinyddu pensiynau, neu ei strategaeth ddiwygiedig, rhaid iddo anfon copi ohoni i bob un o’i awdurdodau cyflogi a’r Ysgrifennydd Gwladol cyn gynted ag y bo hynny'n bosibl yn ymarferol.

(7) Rhaid i awdurdod gweinyddu a'i awdurdodau cyflogi dalu sylw i'r fersiwn gyfredol o unrhyw strategaeth gweinyddu pensiynau wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan y Cynllun.

(8) Yn y rheoliad yma, mae cyfeiriadau at swyddogaethau awdurdod gweinyddu'n cynnwys, lle bo'n briodol, ei swyddogaethau fel awdurdod cyflogi.

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013**

**Costau ychwanegol Rheoliad 70 sy'n deillio o lefel cyflawniad cyflogwr y cynllun.**

(1) Mae'r rheoliad yma'n berthnasol pan fo'r awdurdod gweinyddu priodol o'r farn ei fod wedi mynd i gostau ychwanegol y dylid eu hadennill gan awdurdod cyflogi o ganlyniad i gyflawniad yr awdurdod cyflogi hwnnw wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau yma.

(2) Gall yr awdurdod gweinyddu roi rhybudd ysgrifenedig i gyflogwr y cynllun, yn datgan —

(a) rhesymau'r awdurdod gweinyddu am ddod i'r farn sydd wedi'i nodi ym mharagraff (1);

(b) y swm sy'n daladwy gan Gyflogwr y cynllun ym marn yr awdurdod o dan reoliad 69(1)(d) (taliadau gan Gyflogwyr y cynllun i awdurdodau gweinyddu) mewn perthynas â'r costau hynny y mae'r swm penodol wedi'u seilio arno; a c) os yw'r awdurdod gweinyddu wedi paratoi strategaeth gweinyddu pensiynau o dan reoliad 59, darpariaethau'r strategaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad i roi'r rhybudd ac i'r materion yn is-baragraff (a) neu (b).

**Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013**

**Rheoliad 71 Llog ar daliadau hwyr gan Gyflogwyr y cynllun**

(1) Gall awdurdod gweinyddu fynnu bod Cyflogwr y cynllun neu gyn-gyflogwr y cynllun sy’n hwyr yn talu swm dyledus o dan reoliadau 67 i 70 (cyfraniadau neu daliadau cyflogwyr) yn talu llog ar y swm hwnnw.

(2) Y dyddiad y bydd unrhyw swm sy’n ddyledus o dan reoliad 67 (cyfraniadau cyflogwyr), 68 (taliadau ychwanegol gan gyflogwyr), 70 (costau ychwanegol sy'n deillio o lefel cyflawniad Cyflogwr y cynllun) yw'r dyddiad un mis wedi’r dyddiad talu a gafodd ei bennu gan yr awdurdod gweinyddu ar gyfer talu.

(3) Y dyddiad y bydd unrhyw swm sy’n ddyledus o dan reoliad 69 (taliadau gan Gyflogwyr y cynllun i awdurdodau gweinyddu) (ac eithrio ffi ychwanegol sy’n daladwy o dan reoliad 68 ac y cyfeiriwyd ati yn rheoliad 69(1)(b)) yn hwyr yw’r diwrnod wedi’r dyddiad y daw’r taliad hwnnw’n ddyledus.

(4) Rhaid cyfrifo llog sy’n ddyledus o dan y rheoliad yma ar un y cant yn uwch na’r gyfradd sylfaenol ar sail dydd i ddydd o’r dyddiad y daw’r taliad yn ddyledus i’r dyddiad talu, a’i gronni bob tri mis.

## Atodiad 2 Cyfrifoldebau Swyddog Cyswllt Pensiynau

**Mae cyfrifoldebau allweddol Swyddog Cyswllt Pensiynau’n cynnwys:**

- Gweithredu'n brif gyswllt wrth roi gwybodaeth CPLIL i staff priodol o fewn yr Awdurdod Cyflogi, gan gynnwys:
  - Adnoddau Dynol
  - Adran y Gyflogres
  - Cyllid
  - Aelodau'r Cynllun (lle bo'n briodol)

Sicrhau bod cyflwyniadau I-connect misol yn cael eu cyflwyno i'r Gronfa

- Sicrhau bod safonau gwasanaeth yn cael eu cynnal.

- Nodi unrhyw anghenion hyfforddiant pensiynau a chysylltu â Rheolwr Cyfathrebu'r Gronfa Bensiwn ynglŷn â diwallu'r anghenion yma.

- Hysbysu'r Gronfa Bensiwn ar unwaith os oes unrhyw newidiadau sylweddol i lofnodwyr awdurdodedig neu gysylltiadau allweddol eraill o fewn yr Awdurdod Cyflogi.

- Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Awdurdod Cyflogi mewn perthynas â threfniadau llywodraethu presennol a'r fframwaith rheoleiddio a deddfwriaeth berthnasol arall. Mae hyn yn cynnwys polisïau'r cyflogwyr a phenderfyniadau yn ôl disgresiwn.

- Cynorthwyo'r Gronfa a chysylltu â hi ynglŷn â hyrwyddo manteision bod yn aelod o'r Cynllun i aelodau newydd ac aelodau presennol. Gall hyn gynnwys:

  - Gweithdai Sefydlu
  - Cynllunio Cyfnod Canol Oed
  - Cyfnod Ymddeol ar y Gorwel
  - Hyrwyddo Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY/AVC) Mewnol

- Dosbarthu dogfennau a thaflenni'r Gronfa Bensiwn i aelodau'r Cynllun, gan gynnwys canllawiau'r cynllun, ffeithlenni, cylchlythyron a deunydd cyfathrebu arall gan roi sylw penodol i sicrhau bod aelodau newydd yn derbyn gwybodaeth briodol am y CPLIL, gan gynnwys terfynau amser statudol ar gyfer trosglwyddiadau.

## Atodiad 3 Llofnodwyr Awdurdodedig – Ffurflen Enghreifftiol

**Llofnodwyr Awdurdodedig ar ran:**

**Enw’r cyflogwr:**

**Cyfeiriad y cyflogwr:**

**Swyddog Cyswllt Pensiynau Penodedig:**

| **Enw** | **Title** | **Manylion Cyswllt** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| | | | |

Mae'r swyddogion sydd wedi'u rhestru isod wedi'u hawdurdodi i ofyn am amcangyfrifon o fuddion ymddeol ar ran y cyflogwr sydd wedi'i enwi uchod.

| **Enw** | **Title** | **Manylion Cyswllt** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Llofnod:** **Dyddiad:**

**Swyddog Awdurdod Cyflogi:** **Stamp Swyddogol:**

## 10. Manylion cyswllt

| Ymholiadau | | |
|---|---|---|
| **Sy'n ymwneud â chyflogwyr** | **Tim Jenkins** | **01443 680309** |
| **Ariannol** | **Catherine Black** | **01443 680646** |
| **Ymddeol/Buddion** | **Gemma Penning** | **01443 680357** |
| **Cynnal aelodau** | **Kayleigh Jenkins** | **01443 680614** |

| Manylion Cyswllt | |
|---|---|
| **Desg gymorth:** | **01443 680611** |
| | |
| **E-bost:** | **pensiynau@rhondda-cynon-taf.gov.uk** |
| **Gwefan:** | **www.rctpensions.org.uk** |
| **Cyfeiriad ar gyfer postio neu sylw wyneb yn wyneb:** | **Yr Adran Bensiynau, Tŷ Oldway, Porth, Cwm Rhondda, CF39 9ST** |